CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF

GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR

C. B. Jones
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX

Ms. Karyl May (Ffôn: 01443 424045)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher 17 Ionawr 2018 am 5.00pm.**

AGENDA

Tudalennau

DATGAN BUDDIANT

1 Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Côd Ymddygiad

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a

2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 CYHOEDDIADAU

3 COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2017, yn rhai cywir. **1– 14**

4 LLYWODRAETH AGORED:

5 DATGANIADAU yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw

gyfrifoldebau gweinyddu.

6 CWESTIYNAU GAN YR AELODAU

(a) **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R.Smith i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber)**

"Ydy'r Aelod Cabinet yn gallu darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa Swyddfa'r Post ym Mhontypridd?"

(b) **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J.Bonetto i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J.Rosser)**

"Sut mae'r Cyngor yn ceisio datblygu ei gynlluniau ar gyfer Ysgolion yr 21ain ganrif?"

(c) **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S.A.Bradwick i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"Sut mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn paratoi i fodloni ei gyfrifoldebau Cynllunio Brys yn ystod misoedd y gaeaf?"

(d) **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol P.Jarman i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber)**

"Gwnewch ddatganiad ar flaenoriaethau eich portffolio?"

(e) **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.Caple i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"Sut bydd y Cyngor yn symud ymlaen â'r Buddsoddiad Cyfalaf ychwanegol o £300M a gafodd ei nodi'n ddiweddar gan y Cyngor?"

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

7 Adroddiad Blynyddol Cronfa Deddf Eglwys Cymru 2016/17

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen **15 – 54**

8 Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen **55 - 64**

9 Gostyngiadau Treth y Cyngor

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen **65 – 76**

10 Newid yn Aelodaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ar y Cyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol. **77 - 78**

11 Rhybuddion o Gynigion

(a) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, G.Davies, J.Williams, L.Jones, K. Morgan, J.Davies, E.Webster, E.Stephens, S.Rees Owen, M.Weaver, W.Jones, A.Chapman, S.Evans Fear, A.Cox, D.Macey, H.Fychan, D.Grehan,
J.Cullwick

"Bod y Cyngor yma'n gweithredu'r penderfyniad a wnaed gan y Cyngor Llawn ar 11 Ionawr 2017 ac yn darparu'r arian sydd wedi'i fwriadu ac yn cynyddu'r ddarpariaeth o ddiffibrilwyr mewn mannau cyhoeddus i gefnogi Ymgyrch Calonnau Cymru.

Nid yw'n dderbyniol, un flwyddyn ar ôl y penderfyniad hwnnw, er gwaethaf gwerth dyfeisiau o'r fath er mwyn achub bywydau, nid yw un diffibriliwr ychwanegol wedi ei ddarparu gan y Cyngor".

(b) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol G.R.Davies, P.Jarman, A.Cox, W.Jones, K.Morgan, D.Macey, E.Webster,

J.Williams, S.Evans Fear, A.Chapman, S.Rees Owen, M.Weaver, E.Stephens, L.Jones, J.Davies, J.Cullwick, H.Fychan, D.Grehan.

"Er bod y Cyngor yma wedi cydnabod yn ddiweddar y dylai'r lôn ddynesu at Gwm Rhondda o'r De ar hyd yr A4119 fod yn Borth i Gwm Rhondda, nid yw statws o'r fath wedi cael ei roi i'r lôn ddynesu o'r Gogledd.

Mae'r cynnig hwn yn galw ar y Cyngor hefyd i fabwysiadu a chodi arwyddion ffordd ar y lôn ddynesu at Gwm Rhondda trwy Gwm Cynon. Os yw'r ddau gwm i elwa wrth gyflawni twf economaidd, creu swyddi a ffyniant, mae'n bwysig bod arwyddion cyfeiriadol amlwg yn cael eu gosod ar unwaith ar hyd lonydd dynesu'r priffyrdd o'r gogledd yn ogystal â'r A4119 o'r De.

Bydd y Cyngor hwn yn cymryd camau ar unwaith i ddarparu'r arwyddion y mae ganddo gyfrifoldeb drostynt er budd ehangach y rhai sy'n dymuno ymweld â Chwm Rhondda a Chwm Cynon a buddsoddi ynddynt ar hyd y lonau dynesu gogleddol i'r ddau gwm".

12 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

At: Bob Aelod o'r Cyngor
10 Ionawr, 2018